# Ffurflen Ymateb Ymgynghoriad Canllaw Cynllunio Atodol Drafft

**Canllaw Cynllunio Atodol Drafft: Rheoli'r Defnydd o Dai fel Cartrefi Gwyliau (Ail Gartefi a Lety Gwyliau Tymor Byr)**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bellach wedi cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Parc Cenedlaethol Eryri a fydd yn dod i rym ar y 1af o Fehefin 2025. Pwrpas y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yw rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau a llety gwyliau tymor byr.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn rhoi arweiniad ar ba bolisïau cynllunio cyfredol sy'n berthnasol, sut y cânt eu gweithredu gan ddarparu gwybodaeth bellach ar sut yr asesir ceisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd sy'n ofynnol gan y Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Ymhellach, mae Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi cael ei baratoi, a fydd yn cael ei addasu yn dilyn y cyfnod ymgynghori a cyn mabwysiadu'r ddogfen derfynol.

Dylai sylwadau a wneir yn ystod yr ymgynghoriad hwn ymdrin â chynnwys y CCA drafft yn unig. Nid yw'n gyfle i ail ddiwygio polisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri, nac i ail ystyried y penderfyniad o gyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.

**Caniateir tan 5yh ar 14eg o Ebrill 2025 i chi ymateb**.

Unwaith y bydd yr Awdurdod wedi ystyried yr ymatebion sydd wedi dod i law, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n cymeradwyo'r canllaw'n ffurfiol ac yn eu cyhoeddi ar ffurf derfynol, gan gynnwys unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt. Wedi hynny, bydd y Canllaw Cynllunio Atodol yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**Sut fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth**

Ar 25 Mai 2018 daeth Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym, gan osod cyfyngiadau ar sut all sefydliadau gadw a defnyddio data personol a diffinio hawliau mewn perthynas â'r data hwnnw. Caiff unrhyw wybodaeth bersonol sy'n cael ei datgelu i ni ei phrosesu yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd. Gallwch weld Hysbysiad Preifatrwydd yr Awdurdod yma: Datganiad preifatrwydd: https://eryri.llyw.cymru/datganiad-preifatrwydd/

Bydd y sylwadau ar yr CCA ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ar ffurf tabl yn atodol i'r Adroddiad Ymgynghori ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad, ac felly ni ellir eu trin yn gyfrinachol. Ni fydd yr Awdurdod yn cyhoeddi data personol megis cyfeiriadau post, e-bost, rhifau ffôn. Bydd enwau a sefydliadau yn weladwy.

1. Enw Cyntaf:

2. Cyfenw:

3. Enw/Rhif Tŷ:

4. Llinell Cyfeiriad 1:

5. Llinell Cyfeiriad 2:

6. Tref:

7. Sir:

8. Cod Post:

9. Cyfeiriad e-bost:

10. Rwyf yn cyflwyno fy sylwadau fel:

- ☐ Unigolyn
- ☐ Sefydliad
- ☐ Asiant
- ☐ Arall

11. Enw sefydlaid on yn berthnasol (neu’r cleient os yn asiant):

12. Nodwch sylwadau sydd gennych mewn perthynas â'r Canllaw Cynllunio Atodol Drafft. Cyfeiriwch at rif paragraff os yn rhoi sylwad ar ddarn penodol. Defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen.

13. Hoffai'r Awdurdod glywed eich barn ynghylch effeithiau ychwanegol ar y Gymraeg y mae angen eu hystyried, ac nad ydynt wedi'u nodi yn yr asesiad ar yr iaith Gymraeg. Ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol ychwanegol a nodir ar yr iaith Gymraeg, hoffai'r Awdurdod hefyd geisio barn ar ba newidiadau y gellir eu gwneud i'r cynnig hwn i liniaru'r effeithiau negyddol. Gallai'r effeithiau fod yn uniongyrchol neu anuniongyrchol.